Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

Cyfrol xliii. HYDREF, 1943. Rhif 10.

Ail-drefnu a Diwygio.

Ceir llawer yn ysgrifennu yn y dyddiau hyn ar gwestiwn ail-drefnu wedi'r rhyfel. Gan mwyaf y maent yn bur obeithlon wrth edrych ymlaen. Eithriad yw geiriau fel hyn :

> "Wel, a dywedyd y gwir plaen ni welaf fi fawr o obaith yn y syniadau cyffredin am ad-drefniant, hyd yn oed y rhai mwyaf chwyldroadol ohonynt. Maent fel penderfyniad ambell bechadur i ymddiwygio drwy fyw'n fwy parchus ; fe newidir gwedd gyhoeddus ei fuchedd, ond erys yr hen anwiredd eto dan yr wyneb."

Yn ddiweddar, 'roedd cyfaill i mi yn bresennol mewn cyfarfod o athrawon. Y mater dan sylw oedd Ad-drefniant Addysg. Yn ystod ei araith dywedodd y siaradwr bod sail Gristnogol yn angenrheidiol. Ond pan aeth ymlaen i sôn y dylid cael addysg grefyddol yn yr ysgolion gwelodd fy nghyfaill wynebau'r athrawon yn dechrau gwgu.

Dengys hyn ffaith y mae'n werth sylwi arni. Ceir Cristnogion ac eraill—nad ydynt yn proffesu unrhyw fath o grefydd—yn unfarn mai unig obaith dyfodol gwareiddiad yw diwygiad ysbrydol. Gwahaniaethant yn unig ar y modd i ddod a hyn yn sylwedd.

Ymhlith Cristnogion ceir rhai yn dal mai'r unig ffordd i sicrhau adfywiad ysbrydol yw mynd yn ôl, dychwelyd at gyfnod neilltuol yn hanes yr Eglwys : cyfnod yr Eglwys Fore, y Canol Oesoedd, y Diwygiad Protestanaidd ; dychwelyd ac ail-ennill brwdfrydedd ac egni'r cyfnod hwnnw. Fy marn i yw na ellir gwneuthur hyn—am ddau reswm.

Yn y lle cyntaf, amhosibl i ddynion yn byw yn yr ugeinfed ganrif feithrin meddwl, "Weltanchannag," unryw gyfnod neu oes sydd wedi myned heibio. Er engraifft, os yr Eglwys Gyntefig a ddewisir,—cyfnod y mae llawer Protestant yn edrych arno fel oes aur y grefydd Gristnogol—buasai'n rhaid credu fod y bydysawd

wedi'u rhannu'n dair : y nefoedd uwchben, y ddaear yn y canol, ac uffern odditano. Rhaid fuasai credu mewn ysbrydion da a drwg ac fod yr olaf yn achos afiechydon ; buasai'n rhaid disgwyl ailddyfodiad yr Arglwydd o'r nef ac fod diwedd y byd ar ddyfod. Sut y gall unrhyw un sydd yn gynefin a gweithiau Syr James Fraser, Karl Marx a Darwin dderbyn hyn oll ?

Beth os mai'r Canol Oesoedd a ddewisir, fel y gwneir gan amryw sy'n gatholigion—hynny yw, yn perthyn i Eglwys Rhufain neu'n Uchel Eglwysig yng nghrefydd yr Eglwys Wladol yn Lloegr ; yn hyn o beth gytunant. Edrychant hwy ar y cyfnod hwn fel oes euraid Cristnogaeth. Ofnaf eu bod yn cau eu llygaid ar rai pethau a berthynai i'r oesoedd hynny ; oblegid cyfnod trfysglyd, gwallgof, gwaedlyd a sadiaidd (padistic) ydoedd gydag eglwysi cadeiriol, cochluniau (frescoes), crefftau, telynegion a rheolau sifalri i ymladd brwydrau unigol yn gefndir—yn goleuo'r tywyllwch, fel petai. Annodd cael y Canol-Oeswyr i gyfaddef hyn.

Beth, eto, am oes y Diwygiad Protestanaidd ? Mae'n wir y gall Cristion fod yn "Neo-Calvin" fel y Prifathro J. S. Whale. Ond braidd y credwn y gall ef hyd yn oed feddwl yn hollol fel John Calvin ei hun.

Yn ail, mewn cyfnod tywyll, cyffrous, y duedd mewn un teip o feddwl yw edrych yn ôl a dyheu am oes euraid yn y gorffennol. (Ond odid bod y duedd hon ym mhawb efallai i edrych yn ôl, pan mae'n nos arnom, at oriau mwy cysurlawn a dyheu amdanynt unwaith eto). Credai'r Groegwr gynt mewn oes euraid ("golden age") yn hanes y ddynoliaeth. Ceir yr un grêd yng ngardd Eden yr Hebrewr—a'r Cristion. (Yn yr Oesoedd Canol cyplyswyd â chysonwyd clasuron Groeg a Rhufain â'r Efengyl yn y modd hyn). Hwyrach mai'r un grêd yng Nghymru heddiw a barodd i Mr. Ambrose Bebb ysgrifennu "Y Baradwys Bell." Dangosodd Mr. Bebb nad oedd yn nefoedd ar y ddaear i ffermwr fyw yng Nghymru gan mlynedd yn ôl. Efallai ei fod yn beth caled i ddweud, yn sicr y mae yn beth trist, nad oes y fath beth wedi bod erioed yn hanes y byd âg "oes euraid." Y mae, er hynny, llawer cyfnod tywyll wedi bod.

(*a*) Cyfnod tywyll oedd hwnnw pan fu i Grefyddau Groeg a Rhufain farweiddio a diflannu, pan gollodd dynion ymddiriedaeth yn eu duwiau a cholli pwrpas mewn bywyd. Yr adeg hynny, drwy law Duw, rhoes y cenhadwr o Darsus fywyd ac egni newydd i wareiddiad yr hen fyd ; gosododd Dduw y cyfanfyd ar allor y duw nad adweinir. Daeth â chrefydd newydd i'r byd.

(*b*) Diwrnod tywyll oedd hwnnw pan syrthiodd dinas Rhufain, y ddinas yr edrychwyd arni gydag edmygedd gan bawb yn yr ymerodraeth Rhufeinig—y byd y pryd hynny. Dywed Jerome, a oedd wrthi'n cyfieithu'r Beibl ym Methlehem ar y pryd, fod y newydd am ei chwymp wedi ei syfrdanu :

"Parlyswyd fi gan arswyd, a chlowyd fy ngwefusau gan ofid wrth feddwl i'r ddinas honno, a orchfygodd y byd, ei hun gael ei gorchfygu. Y hi a gaethiwodd y Dwyrain, ei hun a gaethiwyd, a daw Rhufeinwyr, gynt yn orlawn o drysorau, i Fethlem dlawd i gardota bara. Pwy a gredai y gallai'r ddinas fawr hon gael ei dymchwelyd . . . Ceisiaf anghofio drwy droi at fy llyfrau ond ni allaf dalu sylw iddynt."

Fel Jerome, yntau, syfrdanwyd Cristnogion holl fyd y Canoldir gan y newydd. Cyhuddwyd hwy mai o achos eu haddoliad a'u crefydd hwy y syrthiodd Rhufain. Yna, ysgrifennodd lyfr ac achosodd "Dinas Duw" Awstin effeithiau cyn eanged a chwymp Rhufain ei hun.

(*c*) Gwnaeth Francis o Assisi yr un gymwynas i grefydd â oedd yn marweiddio yn y drydedd ganrif ar ddeg.

(*d*) Daeth Luther a Chalfin a bywyd newydd Protestaniaeth yn yr unfed ganrif ar bymtheg.

(*e*) Achubodd John Wesley fywyd Lloegr rhag gwrthryfel yn y ddeunawfed ganrif.

(*f*) A bu i Howel Harris ag eraill wneud gwyrth gyffelyb yng Nghymru.

Ni ellir dychwelyd at unryw un o'r cyfnodau hyn a cheisio ail-ymafael ynddynt, ni ellir chwaith guddio y tu ôl i enw unrhyw un o'r cymwynaswyr hyn ; "escapism," i ddefnyddio gair Saesneg, yw peth felly.

Adroddir i Arglwydd Grey, ar ddechrau rhyfel 1914—18, ddweud bod goleuadau Ewrop wedi'u diffodd ac nas cynheuid hwy mwyach yn ei oes ef . . . Gwelsom rhyfel mwy erchyll fyth oddiar hynny. Eithr nid dyma'r tro cyntaf iddi fod yn dywyll ar ddynoliaeth. Beth, ynteu, a ellir ei wneud ?

Un peth y gellir wneud yw i Gristnogion fod i'r oes hon yr hyn oedd Paul, Awstin, Francis o Assissi, Luther, Calfin i'w hoes hwy. Dyna'r unig efelychiad sydd bosibl. Rhaid i ninnau, fel hwythau, ganfod ôl llaw'r Anfeidriol yn gweithio yn ein byd—ynghanol y rhyfel hwn ac ar ei ddiwedd. Ac o'i chanfod, cyhoeddi Ei ewyllys. Dylau "Fel hyn y dywed yr Arglwydd" fod yn ffaith heddiw fel yn y dyddiau gynt.

Peth arall, rhaid gwneuthur hyn nid yn nhermau'r Eglwys Fore neu'r Oesoedd Canol neu'r Diwygiad Protestanaidd, ond yn nhermau'r ugeinfed ganrif. Y mae angen "techneg newydd" gogyfer a phob oes—a thermau newydd. Ar wahan i hynny ni lwyddir i fod yn ddealladwy. Ceir cynsail (precedent) da i hun yn hanes diwinyddiaeth Gristnogol.

Dengys llythyrau Paul ac efengyl Ioan iddynt ddefnyddio Doethineb a chrefydd yr Iddew, athroniaeth a llenyddiaeth Groeg a deddfwriaeth Rhufain er gosod yr Efengyl mewn gwisg gymeradwy a dealladwy. Defnyddiodd Luther a Chalfin ysgolheictod y Dadeni

Dysg yn ogystal a chamarferiadau'r Eglwys Babyddol i adeiladu seiliau Anghydffurfiaeth. Y mae diwinyddiaeth Gristnogol wedi ei hen arfer i gyfaddasu ac at-fynegi ei hun. Yn yr ystyr yma, a'r ystyr yma yn unig, y gellir credu bod yr Efengyl yn ddigonol i bob oes.

I derfynnu, cyfnod o gyffro meddyliol ar un olwg yw ein cyfnod ni. Meddylier am y Phiseg a'r Fywydeg Newydd a'u tuedd at Fateroliaeth a'r modd y gellir troi arbrofion Gwyddoniaeth er da neu er drwg. Yn ystod y ganrif ddiwethaf ceid y gred mewn cynnydd (progress) anocheladwy, cynnydd yn symud ohonno'i hun yn araf ond di-orffwys tuag at y mil blynyddoedd. Rhoes rhyfel 1914—18 a'r un bresennol ddiwedd ar y gred hon—am byth ni a obeithiwn. Yn ei lle, daeth y gred—yr un mor ddisail—yn iechydwriaeth Addysg, Economeg a Diwygiad Cymdeithasol, ac yn olaf oll, y grêd mewn planio a chynllunio.

Rhag ofn i mi gael fy nghamddeall, dywedaf fy mod yn credu yn yr holl bethau hyn *ond nid fel meddyginiaeth gyffredinol*. Ein cweryl â'r ad-drefnwyr yn y pethau hyn i gyd yw nad ydynt yn mynd yn ddigon pell a dwfn,—na chyffyrddant, er cystal ydynt, â gwreiddyn y drwg. Fel y dywedodd rhywun craff yn ddiweddar, pwy sydd i ail-drefnu'r ail-drefnwyr?

A chaniatau bod gwell addysg, telerau byw cyfiawn a diwygiadau cymdeithasol i ddod, beth wedyn? A ddiddymir pechod, dioddefaint, gofid? Hwyrach y gwêl darllenydd yr hyn sydd yn fy meddwl erbyn hyn. Fe'i gosodwn mor daclus a di-dderbyn-wyneb ag y gallwn. A yw'n ormod i Undodiaeth ystyried stori gardd Eden unwaith eto? Efallai y gwelir bod mwy ynddi nag a feddyliwyd. Wrth gwrs, nid yn llythrennol a feddylir.

Trueni i Anghydffurfiaeth ein hoes fod mor barchus fel ag i adael i sectau llai parchus, Byddin yr Iachawdwriaeth ac eraill, fonopoli'r geiriau "ail-enedigaeth," "achubiaeth enaid," "cyfiawnhad drwy ffydd," "Rhaid eich geni chwi drachefn": saif yr un mor addas a pherthynol i'n cyfnod ni ag erioed. A dyma angen yr Eglwys a'r byd; dynion wedi'u gweddnewid. Ar wahan i'r dasg hon, ofer fydd pob ad-drefniant. Gall ail-drefnu ein harwain i uffern fel ag y gwnaeth yn rhai o wledydd y Cyfandir. Rhag ein dwyn i hyn, gweddiwn "Bywha dy waith, O Arglwydd, ynghanol y blynyddoedd!"

YR ANFFYDDIWR

HERIWR na wêl drugaredd—o law Ión,
Enaid tlawd heb sylwedd;
Dyn heb nef na thangnefedd,
Du yw ei fyd hyd ei fedd!

Trebanos. LLANORFAB.

Dalen Arall o Lyfr fy Mhrofiad.

GWEINIDOGION A ADWAENAIS.

GWEINIDOG y deuthum i gyffyrddiad gweddol agos a chynnar ag ef oedd Mr. Davies o Danycoed ; i gyffyrddiad gryn dipyn agosach ag ef wedi imi ddod i Gribin. Daeth i fod rhyngom gyfeillgarwch a barhaodd yn ddifwlch hyd y diwedd eithaf. Ymwelwn ag ef amled ag y caniatai amser, ac ymwelai yntau â mi ; a phrofais gryn fudd o'r cyfeillachau a fu rhyngom. Cytunem yn dda odiaeth, gyda'r eithriad o un cwestiwn ; beth oedd yr eithriad, nid yw o bwys. Bob tro y cyffyrddid â'r un cwestiwn hwn—nid yn aml y digwyddai hynny—terfynid y ddadl fynychaf gyda sylw tebyg i a ganlyn—"Mr. Evans bach, beth ddaw ohonom os eir ymlaen fel hyn ? " A deuai gwên siriol dros ei wyneb hardd—arwydd sicr nad oedd un drwg deimlad yn dilyn yr ymdrafodaeth.

Dyn mawr oedd Mr. Davies ; nid mawr o gorff a olygaf, er bod iddo gorff cadarn, lluniaidd, o osgo dywysogaidd, eithr mawr o feddwl a chymeriad, a mawr fel pregethwr. Oedd o ddynoliaeth hynod o ddeniadol, a enillai'r neb a ddeuai 'nagos iddo i'w barchu. Bod iddo feddwl hynod o barod a chraffus a wnaed yn amlwg imi un amgylchiad neilltuol. Yn un o Gyrddau Chwarter a gynhaliwyd yng Nghribin, yr oedd gweinidog o Forgannwg wedi'i benodi i ddarllen papur ar y testun—"Crefydd a Gwyddor " ; eithr methodd y darllenwr penodedig â bod yn bresennol ; ac ni ddaeth gwybodaeth o'i fethiant i'm llaw hyd tu mewn i awr i ddechrau'r gwasanaeth. Yn fy mhenbleth, troais at Mr. Davies i adrodd fy ngŵyn, ac erfyniais arno lanw'r bwlch. "O'r gorau," meddai ; ac ymaith yr aeth ar frys ; ni welais mohono drachefn hyd yn agos i'r adeg iddo siarad. Wedi imi glywed ei anerchiad penigamp, braidd na'm temtiwyd i ddiolch i'r pregethwr penodedig fethu â chadw'i addewid. Ni pharhaodd yr anerchiad yn hir ; eithr wedi iddo'i ddirwyn i'r pen, teimlwn ddywedyd ohono bopeth a ellid ac a oedd eisiau'i ddywedyd ar y pwnc. Dihysbyddodd ei fater, a siaradai fel un wedi'i ysbrydoli. Bod ohono'n ddyn o gymeriad mawr, sicr wyf y cydsynia a'i hadwaenai'n orau nas gorliwiaf. Praw digonol o'i boblogrwydd fel pregethwr yw'r ffaith y gelwid yn aml am ei wasanaeth mewn cyrddau arbennig ac mewn angladdau ; nid oedd na Chwrdd Chwarter na Chwrdd Blynyddol yn llawn oni byddai ef yno ; ac o droi dalennau'r hen rifynnau'r YMOFYNNYDD, a sylwi ar y marwgofion, gwelir amled y gelwid am ei wasanaeth ymhob ran o'r rhanbarth Undodaidd ac ymhell tu hwnt i'w ffiniau. Nid oedd bregethwr hirwyntog ; crynhôai ei feddyliau tu mewn i gwmpas cymharol fyr, ac fe'u cyflëai i glyw'r gwrandawyr mewn Cymraeg hynod gywir a swynol, heb un nodyn

ysgrifenedig o'i flaen i'w gadw ar y llwybr y bwriadai gerdded hyd-ddo. Braidd na'm temtid i eiddigeddu wrtho oblegid ei hyfedredd yn y cyswllt hwn ; a mentrais ofyn iddo un tro sut y darganfu ei allu—beth oedd y dirgelwch tu ôl iddo ; a chan chwerthin, dywedodd wrthyf sut y bu. Fel pregethwr, anffodus iddo ef a fu syrthio o'i linynnau tu mewn i gaerau cyfyng enwad bychan ac amhoblogaidd. Pe perthynai i un neu arall o'r enwadau poblogaidd, diamau gennyf y buasai ei enw'n adnabyddus ledled Cymru gyfan. Dyn hynod o amlochrog o gyrhaeddiadau ydoedd, a lanwodd ei le hyd yr ymyl ; a gwasanaethodd ei oes yn ei gylch gyda ffyddlondeb dihafal. Wrth ffarwelio ag ef, dywedaf—"Da, was da."

Pentref Cribin—ysgol Rhydowen—Coleg Caerfyrddin—Pen-y-bont-ar-Ogwy—Cribin eilwaith—Tynrhewl—Brondeifi a Chaeronnen : dyna gerrig milltir amlwg hanes bywyd Rhys Cribin Jones. Ni fwriadaf roddi braslun o'i hanes ; gwnaed hynny eisoes gan ei fab, y Prifathro W. S. Jones, yn ei lyfryn, *Helyntion Hen Bregethwr*. Llyfryn hynod ddiddorol yw hwn, a ddyry inni gipdrem rhyfeddol o glir ar gymeriad llawn hyd yr ymyl o brofiadau amlochrog. Dim ond megis cipdrem, modd bynnag, a roddir inni yn y llyfryn hwn. A phed ymgymerasai ef ei hun, yn oriau hamdden ei ddiwedydd, ag ysgrifennu hanes llwyr gyflawn o'i fywyd o'i ddechrau isel yng Nghribin hyd ei farw yn Llanbedr, tebycach i chwedl a fuasai nag i hanes gwir o fywyd un dyn. Brwydrwr a fu hyd ei oes hir ; a daeth i'w ran, fel y daw i ran pob brwydrwr, brofiadau o bob natur. Mynych y bu'n adrodd ei helyntion wrthyf ; o wrando arno deuai i'm golwg gymeriad a burwyd gan brofiadau o bobmath, chwerw rai o honynt, melys y mwyafrif. Do, bu iddo rai profiadau chwerw ; a daeth allan ohonynt heb iddynt chwerwi'i ysbryd. Ie, heb iddynt chwerwi'i ysbryd. Rhyfedd mor amrywiol yw effeithiau anawsterau ar bobl ; chwerwir ysbryd ambell un i'r man eithaf, gan beri iddynt dybied y gosodir arnynt feichiau na haeddant ; daw eraill allan o'r pair heb suro o'u hysbryd, a chadwant yn fyw oddaith y gobaith y daw amser gwell. Gwaethafwyr y gelwir y cyntaf, gorafwyr yr ail. I'r dosbarth olaf y perthynai Rhys Jones ; onite buasai wedi torri'i galon yn gynnar yn ei yrfa. Nid yn aml, i enwi un anhawster a'i hwynebodd, y gelwir ar un gweinidog i adeiladu dau gapel ar yr un sylfaen ; dyna fel y bu yn ei achos ef ; a chasglodd—ni wn yn gywir y swm—o gwmpas teirmil o bunnau tuag at ddileu'r ddyled. Wedi iddo gwblhau'r gorchwyl, hoff ydoedd o adrodd helyntion ei deithiau casglu—dymunol ar y cyfan, nid yn hollol felly.

O'i adnabod fel y gwneuthum, pe gofynnid imi beth oedd nodweddau amlwg ei gymeriad, atebwn—ei benderfyniad di-ildio,

na fedrai un anhawster mo'i orchfygu na'i ddigalonni ; ei ffyddlondeb i alwadau'i gydwybod fyw, na fedrai na gweniaith mo'i ddenu o'i lwybr dewisedig nac erlid beri iddo wamalu ; ei annibyniaeth meddwl, a berai iddo lynu trwy arw fel trwy dêg wrth a dybiai ef oedd wir, a rhoddi ohono fynegiad diofn a difloesgni iddo. Hawdd y gallwn adrodd aml hanesyn a amlygai'i ysbryd annibynnol, megis, ei ymddiddan â'r Yswain o Gastelldu o barthed i adeiladu capel ar dir Brongest. Gwn yr adroddir y stori yn yr *Helyntion*, afraid yw ei hailadrodd. Cymeriadau rhy brin yw cymeriadau o'r math hyn ; a buan y deuai'r byd yn well byd pes lluosogid.

Un elfen amlwg arall o'i gymeriad na fedraf ymatal rhag sôn am dani oedd yr elfen ddigrifol, a ddeuai i'r amlwg naturioled fel y gosodai'i neb a wrandawai arno mewn hwyl hynod o hapus. Erys un enghraifft o'i ddigrifedd yn fyw ar fy nghôf—ei gymharu o Gwrdd Chwarter yn y Llwyn i chwip—mynd feinach, feinach fel yr oedd yn nesu at y terfyn. Ergyd y ffraetheb oedd—mai ef oedd yr olaf yn pregethu.

Rhaid imi gadw a fwriadaf ddywedyd am ddau weinidog arall hyd y nesaf—yr olaf o'r gyfres yn o debyg.

D.E.

CYNGHRAIR Y GWRAGEDD (RHANBARTH CEREDIGION).—Daeth nifer o gynrychiolwyr yr adrannau ynghyd i Bantydefaid ar Fedi 25. Dyma'r pedwerydd Pwyllgor ar hugain wedi ffurfio'r Cynghrair yn y rhanbarth. Arweiniwyd y rhan ddefosiynol gan Miss Cerdina Davies, Penlon, ac wrth yr organ yr oedd Mrs. Evans, Blaencwm. Llywyddwyd gan Mrs. Park Davies. Oherwydd amgylchiadau anochel ni allai Mrs. S. E. Bowen (Galltyplaca) a Mrs. T. O. Williams (Brondeifi) fod yno. Cynhelir y cwrdd Blynyddol yng Nghalltyplaca ar ddydd Sadwrn, Hydref 26, ac edrychir ymlaen yn aiddgar at glywed y Parch. J. Islan Jones, M.A. yn traethu ar "Beth y gall yr eglwysi yn Lloegr ei ddysgu i ni ?" Treuliodd Mr. Jones holl gyfnod ei weinidogaeth yn Lloegr. Gadawyd i bob adran benderfynu drosti ei hun ar waith y tymor gaeaf. Derbyniwyd y gwahoddiad i gynnal cyfarfod nesaf y pwyllgor yn Rhydygwin ar y dydd Sadwrn cyntaf ym mis Mawrth. Rhoddwyd cryn ystyriaeth i fater a godwyd gan Mrs. T. O. Williams yn y cwrdd o'r blaen, y mater o bwyso ar aelodau'r adrannau a'u cynulleidfaoedd y rheidrwydd i addysgu'r ieuenctid yn egwyddorion Undodiaeth. Siaradwyd ar y mater gan Mrs. Jenkins, Y Bryn ; Miss Evans, Ffynnon Fair ; Miss Davies, Llwynifan, ac eraill. Derbyniwyd y penderfyniad yn unfrydol. Wedi'r cwrdd croesawyd yr ymwelwyr i dê gan Mrs. Davies, Faerdre, llywydd yr adran leol, a'r aelodau.—K. J.

YR YMOFYNNYDD.—Derbyniwyd y symiau canlynol tuag at y draul ychwanegol o gyhoeddi'r YMOFYNNYDD : Aberystwyth, £1 : 5 : 0 ; Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr, £1 ; Llwynrhydowen, £1 ; Graig, Trebanos—Urdd y Benywod, £1 : 1 : 0; Prifathro W. S. Jones, Caerfyrddin, £1 ; Mr. J. C. Jones, Derwydd, 10s. ; Mrs. A. Rees, Llanelli, 2s.6d.. Cyfanswm (Medi 1943) : £5 : 18 : 6.—D. JONES, Maesyrhaf, Lampeter (Trysorydd).

Hanes Undodiaeth.

1. *Gwroldeb Ysbrydol yw'r peth pwysig yn hanes Undodiaeth.*

O'R tu ôl i holl gyfraniadau'r Undodiaid i grefydd a'r bywyd Cristnogol y mae'r gwroldeb i fentro ar anturiaethau ysbrydol. Cydnabyddir yn awr yn helaethach y cyfraniadau hyn. Y cyntaf i dderbyn cydnabod oedd lefel foesol a chymdeithasol uchel bywydau llawer o Undodiaid. Addefir yn awr mai hwy a barodd i ddynion chwilio am Iesu hanes o'r tu ôl i Grist diwinyddiaeth. Mewn nifer sydd ar gynnydd ceir eu hemynau ymhob llyfr canu.

Peth diweddar yw'r gydnabyddiaeth hon. Unwaith gan yr Eglwysi Cristnogol eraill edrychid ar yr Undodiaid fel pobl i'w diarddel. Mewn amseroedd o erlid bu dwrn pawb yn eu herbyn. O'u plith y daeth y rhai diwethaf i dalu pris eu heresi a'u bywyd yn Lloegr ac yn yr Alban. Yn hir wedi y ffurfiau gwaethaf ar erlid diarddelid hwy mewn llawer modd, ac mewn llawer tref fechan gwneir hynny eto. Pan fo rhagfarn wedi gwreiddio mor ddwfn nid rhyfedd fod barnu anghywir yn parhau.

Pe bai rhywun mor gywrain a chwilio'r geiriadur, ni chai yno awgrym o beth sy'n wir bwysig yng ngolwg yr Undodiaid. Ni chai yno ddim ond deffiniadau'n cyfeirio at hen ddadleuon diwinyddol, a gallai ddod i'r farn fod yr eglwysi Undodaidd yn bod i raddau helaeth er mwyn gwrthsefyll athrawiaeth y Drindod. Ond pe cariai ei gywreinrwydd mor bell a mynd i mewn i eglwys Undodaidd, gallai fynd yno am oes gyfan heb glywed pregeth ar y testun hwn. A phe deuai at y sefydliad sy'n cynrychioli'r eglwysi hyn, Y Gymdeithas Gyffredinol o'r Eglwysi Undodaidd a'r Eglwysi Cristnogol Rhydd, a gofyn pa bwrpas sydd i'r sefydliad, cai fod y dibennion wedi eu mynegi fel hyn :

> "Er hyrwyddo Crefydd bur ac Addoli Duw mewn Ysbryd ac mewn Gwirionedd" ac "Er lledaenu egwyddorion Undodiaeth Gristnogol."

Ond ni roddir deffiniad o Undodiaeth Gristnogol heblaw ei fod yn cynnwys "ffurfio a chynorthwyo cynulleidfaoedd na ofynnant iddynt eu hunain na'u gweinidogion lofnodi erthyglau unrhyw gredo."

Sut y gellir cymodi deffiniad geiriadur o'r Undodiaid fel rhai sy'n canolbwyntio ar ddadl ddiwinyddol a'u mynegiant hwy eu hunain o'u dibennion a ellir eu symio'n fyr, hwyrach, fel Theistiaeth Gristnogol di-ddogma ?

Gwir fod dadleuon am natur a phersonoliaeth Duw a Iesu wedi digwydd yn y gorffennol am fod golygiadau anghywir ar y testunau hyn wedi gorwedd fel pwysau ar feddwl dyn ac wedi pylu serchiadau dynol. Mor gyflawn y llwyddodd protest yr Undodiaid fel y mae'n

anodd i wyr a gwragedd y dydd presennol wybod beth y bu'r Undodiaid yn protestio yn eu herbyn. Pan goleddid syniad am y Beibl a oedd yn cloffi meddwl a dyhead, pan oedd Iesu dogma yn ffigur marw, pan bregethid syniad am yr Iawn a oedd yn diraddio Duw yn ogystal a dyn, pan dderbyniai Cristnogion foddhad o gred fod niferoedd mawrion o'u cyd-ddynion wedi eu tynghedu i gosb dragwyddol mewn uffern realistig iawn, pryd y credid y byddai cymdeithas yn dadgorffori mewn anrhefn pe bai dynion yn rhydd i ddefnyddio'u meddyliau ar broblemau dyfnaf bywyd, yr oedd dadlau ar y sistem yma'n angenrheidiol ac yn ddymunol.

Ac ar adegau, yn ddiau, yn nwyster yr angen pwysleisid agweddau sy'n ymddangos ini yn awr yn ddim mor bwysig, a gwelid pethau yn fynych yn fwy na'u maint. I bob ymdrech ddynol y mae terfynau. Ond fel effaith y dadleuon hyn daeth rhyddhad mawr i ysbryd dyn.

Y peth pwysig yn hanes yr Undodiaid yw'r peth sydd o'r tu ôl i'r dadleuon hyn, a'r peth hwnnw yw'r ysbryd mentro a barhaodd am fwy na thair canrif. Er mwyn gwybod am beth y saif yr Undodiaid dyna paham y mae'n well gwybod rhywbeth am eu hanes na chwilio am ddeffiniad geiriadur.

Y mae'r hanes hwnnw yn un am ddarganfyddiadau a chynnydd mawr a chyflym, am wroldeb i ddal yr hyn a ymddengys yn wirionedd, ac am wroldeb i weithredu arno. Ar brydiau, fel ymhob mudiad dynol, y mae gwroldeb rhai yn pallu a gweledíad eraill yn ddiffygiol. Dylid cofio hyn er mwyn ein rhybuddio a'n cadw rhag ofer ymffrost. Er hynny rhan o'n traddodiad yw'r gwroldeb hwn, a dylai fod inni'n ffynhonnell y balchter gwirioneddol hwnnw sy'n ysbrydoli nid i deimlo'n fostfawr ond i ofni y bydd traddodiad mawr yn cael ei golli neu ei wanhau.

Cristnogol oedd ysbrydiaeth y mudiad.

Yn awr, hanfod y datguddiad Gristnogol yw fod Duw a dyn yn cyfranogi o'r un natur. I fynegi hyn fe ddefnyddir fynychaf y gyffelybiaeth o dad a'i blant. Am eu bod o'r un natur gall dyn gymundebu a Duw a dod yn gyfrwng ewyllysgar ei bwrpasau.

Collwyd ar y gwirionedd pwysig hwn. Gobrwy yr ymchwil wrol am wirionedd oedd ail-ddarganfod yn yr bedwaredd ganrif ar bymtheg sylfaen awdurdod mewn crefydd yng nghydwybod, enaid, a meddwl dyn.

Yn awr yn yr ugeinfed ganrif gwel dynion nad yw'r rhain, fel yr Eglwys a'r Ysgrythur, yn anffaeledig. Rhaid deffro cydwybod dyn, rhaid cyfoethogi enaid, rhaid goleuo meddwl dyn, os yw dynion i fyw'n dda wrthynt. Felly canlyniad darganfyddiadau'r gorffennol, fel erioed, yw codi problemau newydd. A chanlyniad anturiaethau'r gorffennol yw anturiaethau newydd. A'r ddarpariaeth orau ar gyfer yr anturiaethau newydd hyn yw'r ysbryd sy'n ffurfio traddodiad Undodaidd.

2. *Cychwynodd y fenter ar y Cyfandir yn yr Unfed Ganrif ar Bymtheg.*

Dywed y llyfrau hanes wrthym am lawer o achosion a gyfunodd yn yr unfed ganrif ar bymtheg i beri cyfnewidiadau mawr. Nid oedd foddhad i anghenion moesol a chrefyddol dyn. Torrodd darn helaeth o Ewrop ymaith oddiwrth yr Eglwys Babyddol, a daeth yn Brotestanaidd. Oddimewn i'r Eglwys Babyddol yr oedd symudiadau bywyd newydd. Gwnaeth darganfod printio y Beibl yn haws ei gael, ac aeth y sawl na fodlonid gan yr Eglwys at y Beibl ei mwyn cael gwybod tebyg i beth ydoedd Cristnogaeth yn y dyddiau cynnar.

Ond nid oedd dysgeidiaeth yr Eglwys am ganrifoedd i'w osod o'r neilltu mewn un cenhedlaeth, hyd yn oed gan y rhai a gododd yn erbyn yr Eglwys honno. Ni chwestynwyd prif athrawiaethau'r credoau gan fwyafrif y rhai a aeth at y Beibl i wybod sut y gwahaniaethau'r Cristnogaeth gynnar odiwrth Gristnogaeth lwgr eu cyfnod.

Aeth rhai fodd bynnag, at y Beibl a'u llygaid yn fwy ar agor. Ymhlith y rhai a dreiddiodd yn ddyfnach na'u cyfoedion oedd y gwrth-Drindodiaid cynnar. Oherwydd iddynt fethu a chael y drefn Drindodol yn y Beibl, gwrthodasant athrawiaeth y Drindod. Ni choleddai'r gwrth-Drindodiaid hyn i gyd yr un syniadau. Nid un llyfr yw'r Testament Newydd ond llawer o lyfrau, ac ynddynt ceir graddau amrywiol o'r gwahanol athrawiaethau am Grist. Am y rhesymau hyn bydd yn llai camarweiniol pe defnyddid yn y cysylltiad hwn y gair "gwrth-Drindodwr" yn hytrach nag "Undodwr." Ond na ddealler y term mewn ystyr negyddol. Gwell gan y gwrth-Drindodiaid i gyd fyddai cael eu galw yn Gristnogion, ond gwrthodid iddynt yr enw hwnnw.

O'r gwrth-Drindodiaid hyn y mwya enwog oedd Ysbaenwr, Michael Servetus (1511—1553). Yn 1531 cyhoeddodd *Ar Wallau'r Drindod* (*De Trinitatis Erroribus*), a blwyddyn yn ddiweddarach *Dwy Ddadl ar y Drindod.* Yr oedd yn fyfyriwr meddygol yn ogystal a diwinyddol. Ef a ddarganfu gyntaf gylchrediad y gwaed yn yr ysgyfaint. Pan oedd yn feddyg i Archesgob Vienne cyhoeddodd *Adferiad Cristnogaeth* (*Christianismi Restitutis*), a hwn a fu'n achos ei farw. Trwy weithred Calfin llosgwyd Servetus yn Geneva (1553). Dinistriwyd ei lyfr mor llwyr fel na wyddys ond am dri copi. Symbylodd ei lyfrau cyntaf ddynion i feddwl. Cyffrodd ei farw feddwl ar y testun am ganrifoedd, a bu'n foddion i godi dadl ar gwestiwn dioddefagrwch. Hyd yn oed mor ddiweddar a 1723 dinistriwyd ad-argraffiad o'i waith, ond yn 1790 cyhoeddwyd ad-argraffiad tudalen-am-dudalen. Erbyn hyn ceir llawer cofadail i'r merthyr.

Yn ei amser ef golygai bod yn Gristion dderbyn awdurdod yr Eglwys a derbyn y Sacramentau. Ysgrifennodd na allai neb fod yn

Gristion heb fod hefyd yn ddisgybl. A gelygai hynny refoliwshon yn yr Eglwys.

Tua'r un amser a Servetus ymddangosodd ymhlith y diwygwyr Protestanaidd nifer o unigolion a grŵpau a oedd yn anfodlon ar Brotestaniaeth, a mynnent fynd ymhellach.

Torrodd y chwyldro Protestanaidd rwymau'r offeiriadaeth, ond aeth Protestaniaeth yn fuan i ofni eu hegwyddorion eu hun, a chaledodd yn iawnffyddiaeth newydd a oedd yn llawn mor gaeth. Dyma'r esboniad paham yr ymddangosodd eisoes yn ail genhedlaeth Protestaniaeth ddiwygwyr mwy radical. Rhoddid arnynt yr enw Ail-Fedyddwyr, ond cuddiai'r enw lawer o wahaniaethau mewn ysbryd a safbwynt. Aeth y mwyafrif ohonynt yn ôl at y Testament Newydd : rhoes rhai fwy o bwys ar y llythyrau, rhoes eraill fwy o bwys ar yr ysbryd. Ond yr oeddynt i gyd yn fwy dilys yn eu cais i fyw bywyd mwy Cristnogol.

Ymhlith y diwygwyr radical ac ysbrydol hyn yr oedd yn naturiol wrth-Drindodiaid. Yr oedd dau o'r goreuon, Hans Denck (1495—1527) a Ludwig Hetzer (1500—1529), yn eucg o'r heresi yma. Bu farw Denck o'r pla mewn alltudiaeth. Merthyrwyd Hetzer yn Contstance. Deellir pob un o'r ddau yn well heddiw nag yn eu hoes.

Ymhlith ail-Fedyddwyr yr Eidal yr ymddangosodd y grŵpau cyntaf o wrth-Drindodiaid, ar wahan i unigolion. Ond sefydlwyd yr Incwisishwn (yr erlid mawr). Llawer a laddwyd : eraill a lwyddodd i ddianc. Ar y cyntaf cawsant noddfa yn yr Yswisdir, ond wedi merthyrdod Servetus erlidiwyd hwy i fannau eraill. Mewn llawer gwlad yr oedd trefedigaethau bychain o'r alltudion dieithr hyn, yn cael eu noddi i ryw raddau oherwydd eu hiaith ddieithr. Yn Lloegr cawsant noddfa Eglwys y Dieithriaid (Strangers' Church) hyd esgyniad y frenhines Mari.

WEDI'R DRIN

Pan dderfy'r fagddu fawr â'i th'wllwch maith,
A phan aiff grŵn y gwenyn dur yn fud,
Pan yrr y wawr drachwantau dyn i'w taith
Ar drai difancoll pell, o feysydd byd ;
Pan ddaw tawelwch wedi'r ddrycin fawr
I atal rhodres twymyn greulon gwanc,
Pan ddaw pelydrau hyfryd blaen y wawr
Â gobaith gwynfyd i werinoedd tranc ;
Odid na chaiff y treiswyr ddedwydd hynt
I fynd yn hen, a drachtio cwpan moeth ;
Bellach anghofiwyd rhywrai a fu gynt
Yn llu diniwed yn yr uffern boeth.
Arglwydd ein Ior, na foed i mi gael byw
I weled Mamon eto wrth y llyw !

Dyserth Alwyn Thomas.

Yr Alwad a Chwi.

Credwn na bydd yr alwad, a gyhoeddwyd o'n pulpudau ar Fedi 12 ac a ddarllenwyd wedi hynny mewn print, o unrhyw fudd oni chyffyrddir a'r pen a'r galon. Nid y pulpud yw cyrhaeddfan yr alwad na'r ddalen o brint ei tharged. Nid ydynt hwy ond cyfryngau sy'n cario'r neges i eneidiau dynion. Ar Fedi 12 heuwyd yr had, ond dim ond ar dir sy'n barod i dderbyn yr had y gwelir cynhaeaf. Os gadawn i belydrau'r goleuni sy'n llewyrchu oddiuchod dywynnu arnom fel unigolion, gallwn fod yn ffyddiog y bydd yma ddeffro gwirioneddol yn ein plith ac y bydd yma ymsymud hefyd.

Beth bynnag fyddo'r planiau, beth bynnag fyddo'r amcanion ar gyfer dyfodol byd a ddrylliwyd, na fydded y rhain yn faich ein pregeth a'n hathrawiaeth—yn hytrach, dylasent fod yn ganlyniad ein pregeth a'n hathrawiaeth.

Direidi chwaraeus y ci bach yw dal cynffon. Nid dyna ein lefel ni. Ein dyledswydd ddifrifol ni yw chwilio'r pen, ac os bydd hwnnw mewn cytgord a Duw, fe fydd yno "ystyriaethau ar ddyfnion bethau bywyd." Credwn y gallwn trwy gymundeb a Duw wybod beth yw ei ewyllys ef, ac o wybod ei ewyllys gallwn ei chyhoeddi er daioni dynion. Ond yn gyntaf, yr ysbrydiaeth; wedi hynny, y dyhead. Ac ar ddyfnder ein hysbrydiaeth ac uchter ein dyhead yr ymddibyna ein cynnydd neu ein tlodi ysbrydol a materol. Os yw'r goleuadau'n llosgi'n isel yn y byd y tu allan, dylai'r alwad ddifrifol yma oddiwrth y comisiwn ar fywyd y reglwysi ein symbylu ni, trwy help Duw, i gadw yn fyw y tanoedd hynny sy'n dal i losgi yn y bydd oddimewn.

Caerdydd. J. H. Coram Davies.

Brwydr Newydd Prydain.

"Wedi'r rhyfel, ni bydd gennyf amser ar gyfer gwaith yn yr eglwys a phethau felly. Byddaf yn rhoi fy amser yn gyfangwbl i wleidyddiaeth." Geiriau milwr ydyw'r rhain, a bu'r milwr hwn cyn ei alw i'r fyddin yn weithiwr diwyd gydag achos crefydd.

Gohebydd yn yr *Unitarian Monthly* sy'n cyfeirio at y digwyddiad, a gwel y perygl o wahaniaethu rhwng crefydd a gwleidyddiaeth fel pe na bai iddynt yr un pwrpas cyffredin mewn golwg. Os nad oes gan y gwleidyddwr amser i grefydda na'r crefyddwr amser i wleidydda, gallwn roi i fyny'r gobaith am weld democratiaeth

wedi ei gwreiddio'n ysbrydol. Ar un llaw bydd cynulliad o ddynion duwiol eu hysbryd ond yn hollol ddi-iws i ddadrys problemau'r bywyd cymdeithasol : ar y llaw arall bydd cynulliad o wleidyddwyr a'u delfrydau cymdeithasol heb iddynt ddyfnder ysbrydol.

Ni ddylai neb ohonom ofyn, "Ai cymhwyso fy hun i fod yn ddiwygiwr cymdeithas *ynte* cymhwyso fy hun i fod yn athro addas yn yr ysgol Sul yw fy nyletswydd ? " Dylem deimlo arnom y rheidrwydd i wneud y ddau beth—dysgu'r ifanc yn yr eglwysi fod y wleidyddiaeth orau'n sylfaenedig ar egwyddorion moesol a chrefyddol, ac mai peth da yw gweld Cristnogion o argyhoeddiad ar ein cynghorau trefol, ac yn Senedd y wlad, ac ar fainc yr Ynadon.

Cofier geiriau Iesu, "Rhodder i Gesar bethau Cesar ac i Dduw bethau Duw." Nid cyhoeddi *polisi'r ain* sy'n hollti ac yn gwahanu y mae Iesu. Ni ddywed wrthym am fod yn ddineswyr Rhufeinig da *neu* yn weision da i Dduw, ond dywed wrthym am wneud y *ddau* beth—gwneud ein dinasyddiaeth yn effeithiol oherwydd ein bod yn weision i Dduw. Pan fydd y cynghorwr plwy a'r cynghorwr Sir yn gwneud amser i athrawiaethu yn yr Ysgol Sul neu i fod yn arweinydd yng ngwaith y gynulleidfa, ac aelodau'r cynulleidfa ar y llaw arall yn gwneud amser i fynychu cyfarfodydd gwleidyddol ac i ddarllen adolygiadau politicaidd, bydd gwleidyddiaeth yn Gristnogol, a bydd yr eglwysi'n fwy effeithiol.

Ym mrwydr newydd Prydain y mae gan yr eglwysi eu rhan. Y mae gennym ninnau fel Undodiaid ein rhan neilltuol. Wedi'r cyfan beth yw cred yn Nhadoldeb Duw ac ym Mrawdoliaeth Dyn ond tasc i'w gyflawni, a beth yw gwleidyddiaeth ond cyfieithiad y ddelfryd yn ffaith.

YM MIRI MEHEFIN

Ar wyliau ym miri Mehefin
Wynebais y byd gyda gwên,
Ac Aeron yn 'sblander yr hafddydd
Yn hudo yr ieuanc a'r hen ;
Dan wenau cyfoedion a cheraint
Yn sawr pêr y gwinwydd a'r rhos,
A miri Mehefin yn estyn
Hwylusdod i ddyfnder y nos.

Ces wyliau ym miri Mehefin,
A chrwydrais hyd lwybrau mwyn, hen
Nes dyfod at lecyn bach tawel
Lle collais mewn myfyr y wên ;
Can's yma y gorffwys f'anwylyd,
Ac yma 'rwy'n dyfod o hyd
Dan bwysau fy hiraeth, a dylif
O ddagrau ing chwerwaf fy myd.

NANCE.

Marwgofion.

Ar Fedi 1, yn Ynysmeudwy House, Ynysmeudwy, TOM H. JOHN, yn 43 mlwydd oed, mab ieuengaf y diweddar Mr. a Mrs. Evan John, Ynysmeudwy Arms gynt. Yn ei ymarweddiad gwelwyd rhagoriaethau ei rieni. Mewn oes fer enillodd barch cymdogaeth helaeth, ac yr oedd yn wir boblogaidd. Bu am rai blynyddoedd yn cadw yr Aubrey Arms, Ystradgynlais. Oddiyno daeth i fyw am yspaid i Bontardawe, ond bregus iawn oedd iechyd yn y blynyddoedd hyn, ac yn 1938 aeth allan am beth amser i Awstralia. Bu ei aros yno yn adgyfnerthiad i'w iechyd. Wedi dod yn ôl ymsefydlodd yn Ynysmeudwy House, yn ymyl ei hen gartref, a chariai ymlaen fasnach mewn coed. Tua dwy flynedd a hanner yn ôl anafwyd ef yn drwm wrth gwympo coeden. Bu hyn yn achos iddo gadw i'w wely am fisoedd maith. Ond yn ddiweddar ymddangosai'n well ei iechyd ac ai ychydig oddiamgylch. Yr oedd ei ddiddordeb yn fawr yng nghymdeithasau amaethyddol yr ardal, a hyd y gallodd bu'n fynychwr cyson yng Ngellionnen. Claddwyd y dydd Llun dilynol yn ymyl ei gartref, ar lecyn yn edrych dros y caeau lle y treuliodd ei oes gyfan, ym mynwent Eglwys Sant Mair, Ynysmeudwy. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. Lewis Morgan (yn cynrychioli cynulleidfa Gellionnen) a'r Parch. J. Derlwyn Evans. Yn yr Eglwys ac ar lan y bedd gwasanaethwyd gan y Parchn. J. Jones Davies, Evan Davies, a Canon J. J. Hughes. Cydymdeimlir yn fawr iawn a'i weddw a'r ferch fach. Y mae'r tad oedrannus erbyn hyn wedi dilyn ei annwyl Tom, ac o "deulu Ynysmeudwy Arms" nid oes ar ôl ond ei frawd, y Cynghorwr Hopkin P. John a'i deulu.

Dydd Sul, Medi 19, ar ôl wythnos fer o gystudd, JOHN JONES, Gellihen, Talgarreg, yn 78 oed. Amaethwr oedd wrth ei alwedigaeth, ac fel y cyfryw ai lawer oddicartref i ffeiriau a marchnadoedd, a daeth yn adnabyddus i gylch helaeth iawn, a chredwn iddo wneud llu mawr o gyfeillion ar ei deithiau. Yr oedd yn adnabyddus i bron hanner y sir. Yr oedd yn amaethwr ymroddgar a deallus. Credai mewn trin ac achlesu'r tir yn dda, ac mewn magu anifeiliaid da, a chai fwynhad mawr wrth weled y pethau hyn yn dod yn eu blaen. Yr oedd yn ddyn o gorff mawr cadarn, er fod y crydgymalau yn blino llawer arno. Nid oes gennym gof clywed iddo gadw ei wely hyd at wythnos olaf ei gystudd. Er mynd ohono lawer oddicartref ei gartref wedi'r cyfan oedd ei hoff fan. Gwaith y fferm a chysur ei deulu oedd ei brif bethau, ac ar ei aelwyd yr oedd fel ei ddiweddar briod yn neillduol o groesawgar a charedig. Byddai pum munud yn ddigon i'r dieithryn pennaf deimlo'n gartrefol ar aelwyd Gellihen. Yr oedd yn gwmniwr rhagorol, ac anghofid amser pan fai'n ei hwyl. Diflasodd yn enbyd pan gollodd ei briod rywbeth gydag un flynedd ar ddeg yn ôl, a chredwn na fu'n hóllol yr un wedi hynny. Yr oedd yn ddyn o galon fawr, dyner a phob amser yn barod i helpu'r gwan. Apeliodd achos teilwng erioed ato am help heb gael yr help—a hwnnw'n help sylweddol. Bydd ei le'n wâg ar yr aelwyd a'r ardal, a llawer cylch arall. Gadawodd fab, pedair merch, mab-yng-nghyfraith a dwy wyres i wylo ei golli. Claddwyd y dydd Mercher dilynol ym mynwent Capel-y-fadfa, a chafodd angladd parchus iawn. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins—y bregeth yn y tŷ yn herwydd anallu'r mab i ddilyn y cynhebrwng—J. Daniel Lewis, Hebron, Pwllheli ; Timothy Jones, Llansannan ; D. Jacob Davies a H. Ponsford.

Ar Fedi 23, ym mhen tair wythnos wedi marw ei fab, Tom, bu farw EVAN JOHN, Ynysmeudwy uchaf (Ynysmeudwy Arms gynt), wedi chwe niwrnod o gystudd yn 87 mlwydd oed. Yr oedd ei gymeriad yn gyfuniad o'r cadarn a'r prydferth—dau beth na welir bob amser gyda'i gilydd. Oherwydd ei deithiau pell i ffeiriau'r wlad o Lanbedr i Dŷ-Ddewi, ac wedyn yn ardaloedd Morgannwg, yr oedd ei gwmni bob amser yn un diddorol, ac yr oedd ganddo yntau gof nodedig.

Bydd rhai o ddarllenwyr hynaf Yr Ymofynnydd yn ei gofio'n dod i Lanbedr a Llanybydder, ac adnabyddid ef fel dyn sownd ar ben y ffair lle y mae llaweroedd yn gwneud glanastra o'u crefydd. Dyn egwyddorol ydoedd, ac enillodd ei ddynoliaeth fawr iddo barch ym mhob lle. Gwelodd lawer o ddyddiau, llawer ohonynt yn ddyddiau garw helbulus, ond daeth drwyddynt yn gadarnach dyn am fod gwreiddiau ei gymeriad yn mynd yn ddwfn. Gwelodd hefyd lawer o ddyddiau hyfryd a thawel. Peth hyfryd oedd ei gysylltiad a'i frodyr mewn masnach mor fawr. Cafodd gwmni un o'r goreuon ymhlith gwragedd, a phan ballodd ei olygon bu ei ddau blentyn yn gymorth amhrisiadwy iddo. Ni ffaelodd Mr. John erioed a gwneud cyfrif gonest a chywir nid yn unig yn ei fasnach ond hefyd o holl fendithion ei fywyd. Hynny a'i gwnai yn bersonoliaeth mor agos ac mor swynol. Yr oedd mewn gwirionedd yn gweld mwy ac ym mhellach na llaweroedd sydd a'u llygaid yn agored. Yn sicr gwelodd yn glir iawn y pethau sy'n wir bwysig mewn bywyd. Hynny oedd yn gwneud ei gymwynas mor gynnes a'i gyngor mor ddoeth. Cafodd ef ei hun gymorth yn ei anfanteision, ac estynnodd yntau gymorth i laweroedd yn eu hanfanteision hwythau. Gellir yn wir symio ei fywyd mewn un ymadrodd—"helpu dynion i fyw." Dyna farn ardal amdano, ac ni allai wneuthur tro gwael am na fynnai ddifwyno enw ei dad a'i dadcu. Maethwyd ef ar draddodiadau aelwyd ragorol. Agos ac annwyl oedd ei gysylltiad â chapel Gellionnen. Yno yr oedd yn ddolen gydiol rhwng gweinidogaeth John James a'r presennol, a hyfryd gwrando arno'n tynnu ar ei gof am bethau diddorol o'r amser gynt. Yr oedd yn Undodwr i'r gwraidd; ymhyfrydai yng nghysylltiad maith ei deulu a'r hen gapel. Ei dadcu, Shon Ynysderw, ffrind mynwesol Josiah Rees a John James, oedd un o bileri cadarn yr achos, ac un o Undodiaid proffesedig cyntaf Cymru. Bu'r ysgrifennydd yn swpera gydag ef y noson olaf y bu yn y gegin, a throes ei siarad at y defnydd a wnaethpwyd yn gynnar yn y ganrif ddiwethaf o'r clarinet yng nghanu'r capel. "Yr oedd 'nhad yng nghyfraith a Dafydd fy mrawd yn dileito gyda'r clarinet, ond," meddai Ifan John, "ond yr oedd fy nileit i dipyn bach yn fwy yn y llyfr ffarier." Ni phallodd er hynny a bod yn gymorth gyda'r canu yng Ngellionnen, ond y mae ffermwyr y cymdogaethau'n diolch iddo am fod mor ddiwyd yn gynnar gyda'r llyfr ffarier. Yn ei oes hir gwelodd lawer o gyfnewidiadau, a da deall fod Mr. Thomas Rogers, ei ffrind agos, yn bwriadu paratoi ysgrif i'r Ymofynnydd ar ei fywyd. Daliodd hyd y diwedd yn ifanc ei ysbryd, ac yr oedd ei gydymdeimlad â'i wyrion bach yn berffaith. Claddwyd wrth Gellionnen ar Fedi 27. Daeth torf i'w hebrwng i'r mynydd, a gweinyddwyd yn yr angladd gan y Parchn. J. D. Jones, D. Jenkins, J. Derlwyn Evans, J. Jones Davies, Gwynedd Jones, Wm. Lloyd, Thomas Jones (nai i'r ymadawedig). Cydymdeimlir yn fawr a'i fab, y Cynghorwr Hopkin P. John a'i deulu, gweddw ei fab Tom a'i merch, ac â chysylltiadau lluosog y teulu.

Nodion yr Eglwysi.

PONT SHAN.—Awgryma gohebydd yn y *Western Mail* nad cyfeirio at enw person y mae Pont Shan. Yn ôl y diweddar Egerton Phillimore gwreiddiau Gwyddelig sydd i'r gair "shan" neu "sian," a'r ystyr yw "hen." Dywaid fod dehau Ceredigion yn gyfoethog mewn enwau lleoedd o wreiddiau Gwyddelig.

LLUNDAIN.—Cyferfydd yr Eglwys Undodaidd Gymraeg yn Eglwys Unity, Upper Street, Islington, N. ar y Sul cyntaf o bob mis am 4.15 p.m. Da iawn gennym gael bod yn yr oedfa ar y Sul cyntaf o Fedi a chlywed y Parchedig D. Jacob Davies yn ei hwyl ardderchog arferol. Dangosodd inni gymaint gwell ydyw cydymdeimlad a chariad na chasineb a dialedd, ac mai trech ydyw llaw agored croeso cyfeillgar na dwrn caeedig atgasrwydd. Gresyn na fuasai ychwaneg

yn bresennol i glywed Mr. Davies ac i ddangos ein bod yn gwerthfawrogi ei garedigrwydd yn dyfod atom bob cam o Aberystwyth. Tybed na fedrwn ni ddim gwneud mwy o ymdrech i gael chwaneg o'n cymrodyr yn Llundain i ymuno â ni yn ein gwasanaethau misol er gwaethaf anawsterau'r amser presennol? Pleser oedd gweled Meistri Alun Davies, B. R. Evans, a Jack Williams, o'r lluoedd arfog, yn yr oedfa ddiwethaf. Dymunwn iddynt bob hwyl, a gobeithiwn eu gweled eu tri eto cyn bo hir. Gofid oedd clywed bod y Parch. J. Arthur Pearson wedi claddu ei fam yn ddiweddar, a chymdydeimlir ag ef yn ei golled. Trefn y dyfodol—Tachwedd, Y Parch. Noel James, B.A.

HIBBERT HOUSES.—Yn ystod mis Awst derbyniwyd £100 12s. 8d. Y mae y taliadau misol mewn cyflogau yn awr yn £321, a rhaid talu costau teithio tri phregethwr sydd newydd fyned allan (£150). Gwelir felly fod y derbyniadau am fis Awst wedi disgyn i ffigyrau sy'n rhy isel. Bydd y trysorydd, Mr. H. Gimson, 46, Ladbroke Square, London, W.11. yn gwerthfawrogi unrhyw gyfraniadau. Y mae'r tai canlynol yn awr yn agored :

H.H.1. 5, Chareh Cherif, Cairo.
H.H.2 13, Rue Nabi Daniel, Alexandria.
H.H.3. 21, Quantaret-el-Dekka, Cairo.
H.H.4. 7, Yehoash Street, Tel Aviv, Palestine.
H.H.5. New Damascus, Syria.

CYMANFA GANU CEREDIGION.—Trefnwyd Rhaglen Goffa i'r diweddar W. Hefin Williams, Llanbedr ar gyfer y Gymanfa uchod, a gynhelir Llun, Mehefin 12, 1944, yng Nghapel Soar, Llanbedr. Cynhwysa'r Rhaglen yr holl donau y gwyr y pwyllgor amdanynt a gyfansoddwyd ganddo. Yn ychwanegol, cynhwysa y nifer arferol o donau i blant, yn ogystal ag anthem iddynt. Wrth hyn, gwelir fod y rhaglen o faint mwy nag arfer, a'i phris fydd chwecheiniog. Os y dymuna rhywrai tuallan i gylch Ceredigion fabwysiadu'r rhaglen, danfoner y nifer a geisir i'r Ysgrifennydd, Mr. Dan Davies, Teify Hill, Llanybydder, a bydd y rhai hynny yn gyfrifol am y nifer a archebir ganddynt.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

Llywydd—Y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D.

Cynhelir

CYRDDAU'R HYDREF
YN RHYDYGWIN
Dydd Mawrth, Hydref 19, 1943

Am 12.30, Pwyllgor y Gymdeithas.

Am 2, Pregethir gan y Parchn. J. D. Jones, B.A., B.D., Trebanos, a E. O. Jenkins, Llwynrhydowen.

Am 5, Pregethir gan y Parchn. J. A. Martin, B.A., Capel-y-Groes a J. Maries Thomas, M.A., Cefncoed.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion yng Ngwasg Gomer, Llandysul.